Strategaeth Hyfforddi
2010-16

sportwales
chwaraeoncymru



Rhagair

Fel cenedl fechan, mae'n rhaid i ni yng Nghymru wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, yn cynnwys ein pobl. Ni ellir gwireddu ein gobeithion a'n breuddwydion am gynnal llwyddiant mewn chwaraeon heb fuddsoddiad parhaus yn ein hyfforddwyr a'n gwirfoddolwyr. Mae hyfforddi'n chwarae rhan allweddol, o gefnogi athletwyr elitaidd i ragori ar lwyfan y byd i annog cymunedau lleol i fod yn fwy heini a mwynhau chwaraeon; mae hyfforddwyr yn cynnig ysbrydoliaeth a chefnogaeth ymarferol i sicrhau bod Cymru'n symud.

Rydym yn gwneud cynnydd sylweddol ers cyhoeddi'r *Cynllun Hyfforddi ar gyfer Cymru* yn 2005 ac mae'r strategaeth hon yn ceisio adeiladu ar y llwyddiannau presennol, gan roi fframwaith yn ei le ar gyfer cyflwyno mwy o hyfforddwyr a hyfforddwyr a gefnogir yn well. Rydym eisiau ein herio ein hunain a'n partneriaid i gynnwys mwy o bobl mewn chwaraeon a chynnal eu cyfranogiad ynddynt. Rydym am weld Cymru'n lle ble gall pawb sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dderbyn cefnogaeth gan hyfforddwr gyda sgiliau priodol – Cymru lle mae pob hyfforddwr yn cael ei recriwtio, ei hyfforddi, ei ddefnyddio ac, yn y pen draw, ei gadw, oddi mewn i chwaraeon.

Drwy gyfrwng ymgyrch *Tu Ôl i Bob Seren*, mae Chwaraeon Cymru'n gwneud ymdrech benodol i ddathlu gwaith hyfforddwyr ac apelio ar bobl i gymryd rhan. Rydym yn awyddus i adeiladu ar y momentwm hwn, a dibynnu'n helaeth ar ein partneriaid i gyflwyno'r canlyniadau uchelgeisiol rydym wedi'u pennu ar ein cyfer ein hunain. Rydym yn cydnabod bod raid i ni godi'r safon a bod yn fentrus a heriol yn ein dyheadau. Mae hyfforddwyr yn allweddol wrth i ni anelu at gyrraedd ein dau nod, sef cael pob plentyn yng Nghymru i wirioni ar chwaraeon am oes a sicrhau bod Cymru'n datblygu i fod yn genedl o bencampwyr. Gan weithio gyda'n partneriaid, credaf fod y strategaeth hon yn gosod nodau uchelgeisiol, ond nodau y gellir eu cyrraedd.

Yr Athro Laura McAllister,
Cadeirydd, Chwaraeon Cymru

LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

Ers 2005, mae ein Cynllun Hyfforddi ar Gyfer Cymru wedi bod yn gatalydd ar gyfer nifer o ddatblygiadau positif ym maes arwain a hyfforddi. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ond mae llawer mwy i'w wneud eto.

Mae angen cynyddu'r nifer o hyfforddwyr actif yng Nghymru a'u cefnogi'n briodol os ydym am gael cenedl iach sy'n llwyddo ym myd chwaraeon. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein gweithlu hyfforddi yn cael y cymwysterau cywir ac yn meddu ar y sgiliau a'r offer i weithio gyda phlant yn ogystal â'r athletwyr gorau; trwy gyfrwng ein ddwy iaith genedlaethol ac ym mhob un o'n cymunedau ledled Cymru.

Rydw i'n croesawu ac yn cefnogi uchelgais a dyheadau Chwaraeon Cymru ar gyfer hyfforddi yng Nghymru. Mae'r strategaeth hon yn gosod ffocws a chyfeiriad clir i'n hymdrechion i sicrhau cyfundrefn hyfforddi lwyddiannus ac effeithiol.

Alun Ffred Jones AC
Y Gweinidog dros Dreftadaeth

Ariennir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by
Welsh Assembly Government

CYNNWYS

01 Rhagair
02 Diben
03 Symud ymlaen
04 Cyflwyno'n erbyn ein dyheadau
06 Buddsoddiad
07 Tirlun
08 Egwyddorion Cyfarwyddo
Cyfeiriadau

Diben

Diben y strategaeth hon yw cyflwyno dyheadau Chwaraeon Cymru a phennu'r cyfeiriad ar gyfer hyfforddi yng Nghymru am y chwe blynedd nesaf. Mae'n sefyll ochr yn ochr â Fframwaith Hyfforddi'r DG, sy'n darparu glasbrint ar gyfer datblygu system i fynd â hyfforddi yn y DG tuag at fod y gorau yn y Byd erbyn 2016. Mae'r strategaeth hon hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer cyflwyno gweithredoedd cysylltiedig â hyfforddi yng nghytundeb Cymru'n Un a Chreu Cymru Egnïol.

Ein Dyheadau

Sicrhau bod:

1. 10% o boblogaeth oedolion Cymru'n cymryd rhan egnïol mewn hyfforddi a gwirfoddoli mewn chwaraeon, gan gynyddu o 113,000 i 240,000 o bobl, yn seiliedig ar y boblogaeth bresennol (Chwaraeon Cymru, 2010a) (RECRIWTIO)
2. pob hyfforddwr wedi'i gymhwyso i lefel briodol i'w rôl ef neu hi (HYFFORDDI)
3. pob hyfforddwr sy'n cymhwyso o'r newydd yn cael ei ddefnyddio ac yn weithredol yn cyflwyno sesiynau hyfforddi (DEFNYDDIO)
4. pob hyfforddwr yng Nghymru'n cael ei werthfawrogi, gyda mynediad i gyfleoedd i ddatblygu ei sgiliau hyfforddi. (CADW)



Y Canlyniadau Allweddol

- **Gwell ansawdd a safonau uwch o hyfforddi'n cael ei gyflwyno, drwy sicrhau bod gan gyrff rheoli cenedlaethol (CRhC) raglenni a llwybrau addysgu hyfforddwyr wedi'u sicrhau am eu hansawdd**
- **Nifer cynyddol o hyfforddwyr wedi cymhwyso ac yna'n cael eu defnyddio, drwy sicrhau bod y galw am gyrsiau'n cael ei fodloni a bod cynnydd yr ymgeiswyr yn cael ei gofnodi a'i gefnogi drwy gymhwyster i ddefnydd**
- **Lefelau uwch o ofal am hyfforddwyr, gyda chefnogaeth barhaus i hyfforddwyr a'u datblygiad wrth galon ein gwaith**
- **Nifer cynyddol o gyfleoedd gwaith ar gyfer hyfforddwyr yng Nghymru**
- **Proffil uwch i hyfforddi a hyfforddwyr yng Nghymru**
- **Data hyfforddi cyson a chadarn, yn arwain at well gwerthuso a chynllunio**
- **Llai o anghydraddoldeb mewn hyfforddi.**

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu cyfeiriad hyfforddi ac fe'i cefnogir gan gynllun gweithredu, a fydd yn datgan targedau mesuradwy ac yn cael ei hadolygu'n flynyddol. Mae Chwaraeon Cymru'n ymroddedig i gydraddoldeb a bydd yn cymryd camau i sicrhau bod cydraddoldeb yn hanfodol wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu.

Mae gwerthusiad parhaus y strategaeth yn hollbwysig; sefydlir mesurau priodol er mwyn asesu'r cynnydd yn uniongyrchol yn erbyn y strategaeth hon. Yng ngoleuni ffocws y strategaeth ar fwy o hyfforddwyr a gwell hyfforddwyr, bydd raid i'r mesurau roi sylw i'r ddwy elfen. Tra bo'r 'mesurau' ar gyfer mesur 'mwy' o hyfforddwyr wedi'u sefydlu'n dda, cydnabyddir nad yw mesur effaith y 'gwell' hyfforddwyr wedi'i ddiffinio cystal. Mae gallu mesur hyn yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r strategaeth ac felly bydd grŵp gwerthuso'n cael ei sefydlu er mwyn sicrhau cynnydd pellach yn y maes gwaith hwn.

1. Diffinnir y boblogaeth o oedolion fel pobl 15 oed a hŷn, fel a fesurir gan Arolwg Chwaraeon Cymru ar Oedolion Egnïol.
2. Mae hyfforddi a gwirfoddoli'n cyfeirio at 'unrhyw gymorth, ar sail dd-dâl, i gynnal gweithgaredd chwaraeon ar ôl ysgol neu mewn clwb'. Mae dadansoddiad pellach yn datgan y math o rôl yr ymgymerir â hi fel - hyfforddi, gweinyddu, cludiant, arlwyo, arall. Mae gwirfoddoli'n cynnwys gweinyddu, cludiant, arlwyo ac arall.

Symud Ymlaen

Gellir dadlau mai cynyddu nifer yr hyfforddwyr[3] ledled Cymru yw'r agwedd bwysicaf os yw Chwaraeon Cymru am gyflawni ei uchelgais o gael pob plentyn yng Nghymru i fwynhau chwaraeon am oes a chael Cymru i fod yn genedl o bencampwyr.

Gellir gweld enghreifftiau o hyn yn Y Ffindir ac yn Sweden. Mae'r ddwy wlad yn cofnodi lefelau uchel o gyfranogiad mewn chwaraeon (72%) ochr yn ochr â'r lefelau uchaf o hyfforddi a gwirfoddoli yn Ewrop, gyda 18% o'r boblogaeth o oedolion yno'n hyfforddi ac yn gwirfoddoli mewn chwaraeon (TNS Opinion and Social, 2010). Mae Chwaraeon Cymru wedi ystyried hyn wrth osod nod ar gyfer maint y gweithlu sydd ei angen er mwyn galluogi i bawb sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon allu cael sylw gan hyfforddwr gyda'r sgiliau priodol.

Mae'r strategaeth flaenorol, 'Y Cynllun Hyfforddi ar gyfer Cymru', a lansiwyd yn 2005, wedi gweld cynnydd mewn sawl maes. Gwelwyd cynnydd yn nifer y staff cyflogedig ar lefel elitaidd mewn chwaraeon, gyda ffigwr cyfatebol i 170 o hyfforddwyr llawn amser a chyfarwyddwyr perfformio. Ceir 22 CRhC yn cyflwyno Tystysgrif Hyfforddi'r DG ac mae nifer yr hyfforddwyr a hyfforddir wedi cyrraedd y ffigwr uchaf erioed, gyda mwy na 10,000 o arweinwyr a 5,000 o hyfforddwyr yn cymhwyso bob blwyddyn, gyda chefnogaeth gan bŵl cynyddol o diwtoriaid, aseswyr a dilyswyr cymwys.

Mae hyn yn dda, ond er mwyn cyflawni ein dyheadau, bydd raid i ni wneud mwy. Mae darganfyddiadau prosiect ymchwil 'Gwirfoddoli mewn Chwaraeon yng Nghymru' (Chwaraeon Cymru, 2010b), yr Adolygiad o'r 'Cynllun Hyfforddi ar gyfer Cymru' (Cyngor Chwaraeon Cymru, 2009a), ochr yn ochr ag ymgynghori gyda rhan-ddeiliaid, wedi cael eu defnyddio fel sail ar gyfer y strategaeth newydd hon ar gyfer 2010-2016. Er nad yw'r strategaeth yn cynrychioli newid yn yr ethos o 'Fwy o Hyfforddwyr... Gwell Hyfforddwyr', bydd raid wrth newid mewn dull o weithredu a lefel y gweithgarwch gennym ni a'n partneriaid,

gyda phawb yn sicrhau mwy o ffocws ac yn gweithredu'n fwy systematig.

Felly beth yw'r newid yn y dull o weithredu? Rydym eisiau gweld diwylliant lle mae hyfforddi a gwirfoddoli mewn chwaraeon yn rhywbeth cwbl arferol ac felly mae angen system lle ysbrydolir pobl, a'u hannog a'u cefnogi'n rhagweithiol ar hyd eu siwrnai. Yn greiddiol i hyn mae rôl ein cymunedau lleol; dyma ble mae chwaraeon yn digwydd ac mae gan glybiau a sefydliadau chwaraeon lleol ran gwbl allweddol i'w chwarae mewn recriwtio, cefnogi a meithrin hyfforddwyr.

Mae recriwtio, hyfforddi, defnyddio a chadw effeithiol yn elfennau cwbl hanfodol o'r system sydd ei hangen a thra bo recriwtio a hyfforddi rhagweithiol yn sylfaenol, mae'n rhaid rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio a chadw. Cyflwynir tua 10,000 o bobl i hyfforddi bob blwyddyn ond gyda chyfanswm o 46,700 o hyfforddwyr yng Nghymru, mae hyn yn awgrymu ein bod yn colli nifer arwyddocaol (Cyngor Chwaraeon Cymru, 2009b). Felly, rhoddir blaenoriaeth i'r sefydliadau hynny sydd â defnyddio a chadw'n rhan greiddiol o'u cynlluniau neu eu systemau hyfforddi.

Yn allweddol, byddwn yn gwerthfawrogi ein gweithlu. Mae hyn yn tarddu o gydnabod a gwerthfawrogi'r rôl yr ymgymerir â hi. Dyma'r rhywbeth bach sy'n gwneud gwahaniaeth; mae cyfathrebu'n effeithiol, cynnig hyfforddiant, mentora, cydnabod cyfraniad hyfforddwr wrth broffilio athletwr, neu gymryd amser i ddiolch i hyfforddwr i gyd yn bwysig er mwyn cadw'r gweithlu. Mae'n rhaid i ni ddathlu llwyddiant ac rydym eisiau gweld hyn yn rhywbeth cyffredin yng Nghymru.

3. Yng nghyd-destun y strategaeth hon, mae'r diffiniad o 'hyfforddwr' yn cyfeirio at unrhyw unigolyn sy'n ymwneud â darparu hyfforddiant, felly, mae'r diffiniad yn amrywio o wirfoddolwyr wedi'u trefnu'n anffurfiol (arweinwyr) i hyfforddwyr elitaidd. Dylid dehongli pob cyfeiriad at 'hyfforddwyr' gan ddefnyddio'r diffiniad hwn.

Cyflwyno'n Erbyn Ein Dyheadau

Recriwtio

DYHEAD – cael 10% o'r boblogaeth o oedolion yng Nghymru'n ymwneud â hyfforddi a gwirfoddoli

Maes Ffocws	Enghreifftiau	Mesur Cynnydd	
		Mesur	Ffynhonnell Ddata
Cynyddu apêl hyfforddi a gwirfoddoli mewn chwaraeon drwy greu mwy o ymwybyddiaeth ac effaith ledled Cymru	Arddangosfa deithiol yn proffilio hyfforddwyr, astudiaethau achos, hysbysebu a hyrwyddo lleol yn rhoi gwybod i bobl beth yn union mae hyfforddi a gwirfoddoli'n ei olygu	Nifer yr hyfforddwyr gwirfoddol gweithredol yng Nghymru (amcangyfrif) Nifer yr hyfforddwyr cyflogedig yng Nghymru (amcangyfrif) Nifer y gwirfoddolwyr gweithredol yng Nghymru (amcangyfrif)	Arolwg Chwaraeon Cymru ar Oedolion Egnïol
Llwybrau clir yn eu lle ar gyfer hyfforddi a gwirfoddoli, yn unol â'r cyfranogwr	CRhC i feddu ar lwybr wedi'i ddiffinio'n glir fel bod hyfforddwyr / gwirfoddolwyr posibl yn ymwybodol o'r cyfleoedd sy'n bodoli		
Recriwtio rhagweithiol, wedi'i dargedu	Clybiau – mynd ati i ofyn i bobl gymryd rhan e.e. pan fo rhiant yn mynd â'i blentyn i weithgaredd chwaraeon, gofyn i'r rhiant hefyd sut all gyfrannu Denu mwy o ferched at hyfforddi Recriwtio'r bobl iawn – datblygu teipoleg i dargedu'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod eisiau cymryd rhan		
Goresgyn y rhwystrau ar gyfer recriwtio hyfforddwyr a gwirfoddolwyr	Amser – cynnig mwy o gyfleoedd hyblyg i bobl gymryd rhan. Datblygu partneriaethau gyda chyflogwyr fel bod cyflogeion yn cael amser rhydd i wirfoddoli		

BETH RYDYM YN DISGWYL EI WELD?

- Clybliau / sefydliadau chwaraeon lleol yn mynd ati'n rhagweithiol i ofyn i bobl helpu, gan weithredu arferion recriwtio diogel
- CRhC / Awdurdodau Lleol (ALlau) / yr URDD yn galluogi i glybiau wneud hyn drwy gefnogi'r gwaith o reoli'r clybiau
- Dealltwriaeth y partneriaid i gyd o ba fath o recriwtio sydd ei angen
- CRhC yn sicrhau bod eu llwybr hyfforddi'n cael ei ddeall gan bawb sy'n cymryd rhan
- Chwaraeon Cymru'n darparu cefnogaeth ar lefel genedlaethol er mwyn codi proffil hyfforddi
- Chwaraeon Cymru'n darparu adnoddau i gefnogi partneriaid wrth iddynt ddatblygu clybiau
- Chwaraeon Cymru'n cefnogi partneriaid i weithredu arferion recriwtio diogel

Hyfforddi

DYHEAD – Pob hyfforddwr wedi cymhwyso i lefel briodol ar gyfer ei rôl ef neu hi

Maes Ffocws	Enghreifftiau	Mesur Cynnydd	
		Mesur	Ffynhonnell Ddata
Hyfforddiant priodol	Pob hyfforddiant yn rhoi i'r ymgeiswyr sgiliau a gwybodaeth ddigonol i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol	Nifer yr hyfforddwyr gweithredol, yn ôl cymhwyster (amcangyfrif) Nifer yr hyfforddwyr a hyfforddir bob blwyddyn, yn ôl lefel y cymhwyster Nifer y tiwtoriaid, yr aseswyr a'r dilyswyr	Arolwg Chwaraeon Cymru ar Oedolion Egnïol* Data CRhC, data sports leaders UK, data Chwaraeon Cymru Data CRhC
Hyfforddiant hwylus, heb rwystrau	Yr hyfforddwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau arweinwyr, lefel un neu lefel dau yn gallu mynychu cyrsiau yn eu hardal – i ddarparu ar gyfer materion daearyddol Cymorth tuag at gostau addysgu hyfforddwyr i hyfforddwyr gweithredol, ar bob lefel		
Y rhai sy'n cyflwyno addysg hyfforddwyr wedi sicrhau gweithlu gyda sgiliau priodol i fodloni'r galw	Pob tiwtor, aseswr a dilyswr ar y cyrsiau addysgu hyfforddwyr yn derbyn hyfforddiant cydnabyddedig		

BETH RYDYM YN DISGWYL EI WELD?

- Hyfforddwyr eisiau bod yn gymwys
- Clybiau / sefydliadau chwaraeon lleol yn sicrhau bod gan eu hyfforddwyr i gyd gymwysterau priodol
- Y darparwyr hyfforddiant i gyd yn cynnal calendr llawn o gyfleoedd addysgu hyfforddwyr ledled Cymru, yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen
- Cydweithio rhwng yr holl bartneriaid er mwyn sicrhau bod y cyrsiau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau addas a bod y rhwystrau sy'n atal ennill cymhwyster cyn lleied ag y bo modd
- Chwaraeon Cymru'n hwyluso cydweithio rhwng partneriaid er mwyn sicrhau bod hyfforddwr yn gallu mynychu cyrsiau
- Chwaraeon Cymru'n cyfrannu at gost yr hyfforddiant i hyfforddwyr

Defnyddio

DYHEAD – Defnyddio pob hyfforddwr sydd wedi'i gymhwyso o'r newydd a sicrhau ei fod yn weithredol wrth gyflwyno sesiynau hyfforddi

Maes Ffocws	Enghreifftiau	Mesur Cynnydd	
		Mesur	Ffynhonnell Ddata
Cyflenwad o gyfleoedd hyfforddi i fodloni'r galw	Bydd clybiau a sefydliadau chwaraeon lleol yn gofyn i bobl gymryd rhan yn arwain at fwy o gyfleoedd, a fydd yn galluogi'r clwb i ehangu wedyn	Cyfran yr hyfforddwyr sydd wedi'u hyfforddi o'r newydd sy'n hyfforddi flwyddyn wedi derbyn eu hyfforddiant** % y rhai sy'n cymryd rhan mewn clybiau chwaraeon sydd wedi derbyn hyfforddiant	Monitor Tracio Hyfforddi Newydd** Arolwg ar Oedolion Egnïol
Tracio a chefnogi hyfforddwyr mewn cyfleoedd defnyddio	Yn dilyn hyfforddiant, bydd yr hyfforddwyr yn derbyn gwybodaeth yn rhoi gwybod iddynt am y camau nesaf		
Cynyddu'r cyfleoedd i ddatblygu gyrfa o hyfforddi	Cydlynu'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael er mwyn troi hyfforddi sesiynol yn swyddogaethau rhan amser neu lawn amser		

BETH RYDYM YN DISGWYL EI WELD?

- Clybiau / sefydliadau chwaraeon lleol yn cefnogi hyfforddwyr i ddewis y cyfle priodol drwy gyfateb eu sgiliau â'r rôl
- Pob darparwr hyfforddiant i gynnig dilyniant i hyfforddwyr wedi cwrs, gan ddarparu iddynt wybodaeth am y camau nesaf a sut allant sicrhau mwy o gefnogaeth
- CRhC / ALlau / yr URDD yn gwybod y nifer o hyfforddwyr gweithredol
- Cydlynu cyfleoedd gwaith rhwng sefydliadau sy'n cyflogi hyfforddwyr
- Chwaraeon Cymru i fuddsoddi mewn cyflogi hyfforddwyr

Cadw

DYHEAD – Bydd pob hyfforddwr yng Nghymru'n teimlo'n bwysig a bydd yn cael cyfleoedd i ddatblygu ei sgiliau hyfforddi.

Maes Ffocws	Enghreifftiau	Mesur Cynnydd	
		Mesur	Ffynhonnell Ddata
Amrywiaeth eang o gyfleoedd i gefnogi datblygiad parhaus yr hyfforddwyr i gyd, ar bob lefel	Yr hyfforddwyr i gael unigolyn cyswllt penodol ar gyfer cyngor, cyfarwyddyd a chefnogaeth, rhaglenni mentora, cyfleoedd datblygu proffesiynol, cynadleddau, defnydd o'r rhyngrwyd er mwyn darparu dysgu hyblyg, anffurfiol a dysgu fel rhan o swydd	Nifer yr hyfforddwyr yn mynychu Cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus Barn yr hyfforddwyr am lefel y gefnogaeth a gafwyd, sut fu o gymorth iddynt wella, a wnaeth eu hannog i ddal ati i hyfforddi (a sut)? ac a ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi Nifer yr hyfforddwyr sydd dal yn weithredol yn y gamp	Data CRhC, data Chwaraeon Cymru Monitor Tracio Hyfforddi Newydd** Data CRhC / Monitor Tracio Hyfforddi Newydd**
Gwerthfawrogi a chydnabod yr hyfforddwyr yng Nghymru, er mwyn sicrhau eu bod yn dal ati i gymryd rhan	Cydnabod hyfforddwyr wrth broffilio athletwyr, llythyrau, llongyfarch / diolch i hyfforddwyr, seremonïau gwobrwyo, cefnogi costau hyfforddi, parchu hyfforddwyr		

BETH RYDYM YN DISGWYL EI WELD?

- Yr hyfforddwyr yn ymroddedig i'w datblygiad proffesiynol parhaus
- Clybiau / sefydliadau chwaraeon lleol yn deall beth yw uchelgais pob un o'u hyfforddwyr ac yn gallu cyfeirio / darparu cyfleoedd iddynt gyflawni hyn
- Clybiau'n cynnig cydnabyddiaeth barhaus a gwobrau i ddangos eu bod yn gwerthfawrogi cyfraniad hyfforddwr
- CRhC / ALlau yn cydnabod y cyfraniadau sylweddol at hyfforddi
- CRhC / ALlau yn deall y gofynion hyfforddi a datblygu ac yn gallu cyflwyno beth sydd ei angen
- CRhC / ALlau yn darparu amrywiaeth o wahanol gyfleoedd dysgu
- CRhC / ALlau yn gweithio gyda sefydliadau addysgol er mwyn helpu i ddatblygu adnoddau i gefnogi hyfforddwyr
- Chwaraeon Cymru'n hwyluso cydweithio, yn rhannu arfer dda ac yn arwain mewn meysydd sy'n gyffredin i Gymru gyfan.

* Bydd cwestiwn i ganfod y cymhwyster hyfforddi uchaf sydd gan hyfforddwyr gweithredol yn rhan o Arolwg Chwaraeon Cymru ar Oedolion Egnïol o 2012 ymlaen.
**Bydd y Cyrff Rheoli Cenedlaethol a Chwaraeon Cymru'n cydweithio er mwyn casglu gwybodaeth gan hyfforddwyr sydd wedi'u hyfforddi o'r newydd oddeutu blwyddyn (er mwyn amcangyfrif lefel y defnydd o hyfforddwyr) a thair blynedd (er mwyn amcangyfrif lefel y cadw a'r datblygu) wedi iddynt gael eu hyfforddi fel hyfforddwyr.

Buddsoddiad

Bydd Chwaraeon Cymru'n gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol a fydd yn gallu dangos yn glir sut allant gyfrannu at y pedwar dyhead hyfforddi yma.

Byddwn yn blaenoriaethu'n erbyn y chwaraeon hynny sy'n gallu cyfrannu at ddyheadau Chwaraeon Cymru. Ar lefel elitaidd, y rhain fydd y chwaraeon hynny sydd wedi'u datgan yn y *Strategaeth Chwaraeon Elitaidd* (Chwaraeon Cymru, 2010c) ac ar lefel gymunedol, y chwaraeon a all ddangos effaith ar ddarparu cyfleoedd cynyddol i gymryd rhan mewn chwaraeon gyda hyfforddiant o safon i'w cadw'n cymryd rhan. Bydd ein ffocws ar wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael drwy weithio gyda phartneriaid sydd â chynlluniau cadarn yn eu lle, gyda'r cynlluniau hynny'n dangos gwerth am arian clir.

Bydd Chwaraeon Cymru'n anelu at fuddsoddi £5 miliwn y flwyddyn mewn hyfforddi o gyllidebau'r Tryslorlys a'r Loteri. Mae'r ffigwr hwn yn cynrychioli cynnydd sylweddol ar y blynyddoedd blaenorol, gydag £1 miliwn ychwanegol yn cael ei flaenoriaethu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2010 a 2011. Bydd y cyllid yn unol â dau brif ddyhead Chwaraeon Cymru, sydd fel a ganlyn:

1. Cenedl o bencampwyr – £2.2 miliwn

- Cyflwyno hyfforddiant (cyflogi hyfforddwyr)
- Cyfarwyddyd hyfforddi (cefnogi'r strwythur er mwyn sicrhau bod hyfforddwyr yn cael eu rheoli'n effeithiol)
- Datblygu hyfforddwyr (cefnogi hyfforddwyr, mentora, datblygiad proffesiynol parhaus)

2. Pob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes – £2.8 miliwn

- Recriwtio (codi proffil, cefnogi'r is-strwythur er mwyn galluogi partneriaid i recriwtio)
- Hyfforddi (cyfrannu at gost addysgu hyfforddwyr)
- Defnyddio (tracio, cyflogi hyfforddwyr)
- Cadw (cefnogi hyfforddwyr, mentora, cydnabod a gwerthfawrogi hyfforddwyr)
- Cyflwyno'r system (cefnogi gweithlu i gyflwyno hyfforddiant)

Tirlun

Mae angen gweithio'n unedig er mwyn cyflwyno'r strategaeth yn llwyddiannus. Mae'r tirlun hyfforddi yng Nghymru'n eang a cheir nifer o sefydliadau a all gyfrannu at ein dyheadau hyfforddi. Mae angen gweithio ar y cyd i sicrhau llwyddiant a bydd hynny'n cael ei adeiladu ar bartneriaethau effeithiol.

Mae'r diagram isod yn dangos y sefydliadau sy'n cyflwyno hyfforddiant yng Nghymru a'r rôl maent yn ei chwarae oddi mewn i hyn:

Recriwtio | Hyfforddi | Defnyddio | Cadw | Polisi / Strategaeth

HYFFORDDWR / ATHLETWR					
Clybiau Lleol	RECRIWTIO	HYFFORDDI	DEFNYDDIO	CADW	
Grwpiau Cymunedol	RECRIWTIO	HYFFORDDI	DEFNYDDIO	CADW	
Sefydliadau Addysgol	RECRIWTIO	HYFFORDDI	DEFNYDDIO	CADW	
Cyrff Rheoli Cenedlaethol	RECRIWTIO	HYFFORDDI	DEFNYDDIO	CADW	POLISI/STRATEGAETH
Awdurdodau Lleol	RECRIWTIO	HYFFORDDI	DEFNYDDIO	CADW	
Arweinwyr Chwaraeon y DG		HYFFORDDI			
Chwaraeon Anabledd Cymru	RECRIWTIO	HYFFORDDI	DEFNYDDIO	CADW	POLISI/STRATEGAETH
Yr Urdd	RECRIWTIO	HYFFORDDI	DEFNYDDIO	CADW	
Chwaraeon Cymru	RECRIWTIO	HYFFORDDI	DEFNYDDIO	CADW	POLISI/STRATEGAETH
sports coach UK					POLISI/STRATEGAETH
Skills Active					POLISI/STRATEGAETH
UK Sport					POLISI/STRATEGAETH

Allwedd

Lefelau amrywiol o ddylanwad

Egwyddorion Cyfarwyddo

Yr egwyddorion cyfarwyddo ar gyfer sut i ddatblygu hyfforddi yng Nghymru yw:

Cydraddoldeb	Nod y strategaeth hon yw lleihau'r anghydraddoldeb er mwyn estyn allan at gynulleidfaoedd newydd a'r rhai presennol, er mwyn cynyddu nifer a sylfaen wybodaeth yr hyfforddwyr, y swyddogion a'r gwirfoddolwyr. Bydd raid i gyfleoedd hyfforddi ac addysgu i hyfforddwyr fod yn hwylus i bawb.
Uchelgais	Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y gwaith da a wnaed eisoes. Dylai pennu targedau uchelgeisiol fod yn rhan hanfodol o'r siwrnai ymlaen.
Uno	Dod â phartneriaid a phobl at ei gilydd; awdurdodau lleol, cyrff rheoli chwaraeon, cymunedau, hyfforddwyr, oedolion, pobl ieuainc, plant a'r genedl gyfan er mwyn cefnogi, cymryd rhan a rhagori mewn chwaraeon.
Blaengar	Dylai dulliau newydd blaengar ac atebion creadigol fod yn rhan allweddol o'r strategaeth.
Syml	Mae'n hawdd deall ein cyfeiriad ac mae'n syml ac yn berthnasol i'n cyfranogwyr, ein hyfforddwyr, ein gweinyddwyr a hyd yn oed pawb sy'n ymwneud â chwaraeon.
Yr iaith Gymraeg	Dylai'r cyfranogwyr gael cyfle i dderbyn hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.
Dull o weithredu gan roi sylw canolog i'r cyfranogwr	Gwybod ble mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal a datgan pa hyfforddwyr sydd eu hangen.
Ansawdd	Bydd y cyfranogwyr, y perfformwyr a'r timau i gyd yn derbyn hyfforddiant o safon ym mhob cam o'u datblygiad.
Diwylliant Gwirfoddoli	Croesawu diwylliant yng Nghymru o ofyn i bobl gymryd rhan, gan feithrin a chefnogi ein hyfforddwyr.
Gwirfoddol a phroffesiynol	Bydd y strategaeth hyfforddi'n darparu ar gyfer unrhyw wahaniaethau mewn anghenion rhwng hyfforddwyr proffesiynol a gwirfoddol.
Amgylcheddau hyfforddi	Bydd y strategaeth hyfforddi'n darparu ar gyfer unrhyw wahanol fathau o gyfranogwyr y bydd yr unigolion yn eu hyfforddi – e.e. plant, oedolion, datblygu talent, perfformiad uchel ac elitaidd.
Amgylchedd positif	Cyflwynir yr holl hyfforddiant mewn amgylchedd positif, diogel a hwyliog.
Seiliedig ar dystiolaeth	Bydd y gwaith o gynllunio'r gofynion hyfforddi'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn.
Ffocws ar ganlyniad	Bydd y strategaeth yn arwain at 'Fwy o Hyfforddwyr' a 'Gwell Hyfforddwyr', gan godi safonau a statws hyfforddi yng Nghymru a sicrhau bod hyfforddwr gyda sgiliau priodol ar gael i bob cyfranogwr yng Nghymru.

Cyfeiriadau

Cyngor Chwaraeon Cymru., (2009a). Cynllun Hyfforddi ar gyfer Cymru. Caerdydd: Cyngor Chwaraeon Cymru

Cyngor Chwaraeon Cymru., (2009b). Cynllun Busnes Cyngor Chwaraeon Cymru 2008-09, Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Caerdydd: Cyngor Chwaraeon Cymru

Chwaraeon Cymru., (2010a). Arolwg 2008-09 Chwaraeon Cymru ar Oedolion Egnïol. Caerdydd: Chwaraeon Cymru

Chwaraeon Cymru., (2010b). Gwirfoddoli mewn Chwaraeon yng Nghymru. Caerdydd: Chwaraeon Cymru

Chwaraeon Cymru., (2010c). Strategaeth Chwaraeon Elitaidd 2010-16. Caerdydd: Chwaraeon Cymru

TNS Opinion and Social., (2010). Special Eurobarometer 334: Sport and Physical Activity. http://ec.europa.eu/public_opinion/archives/ebs/ebs_334_en.pdf